

Strategaeth Llythrennedd

Ysgol Dyffryn Nantlle 2014/15



Strategaeth Llythrennedd

Mae sgiliau llythrennedd cryf yn sylfaen gadarn i gwricwlwm ysgol lwyddiannus. Atgyfnerthir y cwricwlwm ymhob pwnc drwy ddatblygu gallu disgyblion i siarad, gwrandao, darllen ac ysgrifennu.

Mae datblygu llythrennedd a'r Gymraeg a Saesneg fel pynciau wedi eu cysylltu'n agos ac mae'r gwaith a wneir o fewn y pynciau yma yn gwbl allweddol i ddatblygu eu sgiliau. Er hyn mae gan bob adran ac athro ran allweddol i'w chwarae mewn datblygu llythrennedd o fewn yr ysgol. Mae pob athro neu athrawes bellach yn athrawon llythrennedd.

Mae Ysgol Dyffryn Nantlle yn gwbl ymroddedig i ddatblygu sgiliau llythrennedd ym mhob un o'n disgyblion, yn y gobaith y byddwn yn codi safonau ar draws y cwricwlwm.

Yr ydym yn credu fod llythrennedd yn allweddol ar gyfer gwella dysgu a chodi safonau. Mae'n galluogi disgyblion i;

- gymryd rhan lawn ymhob pwnc
- ddarllen gwybodaeth am bleser
- gyfathrebu'n hyderus ac effeithiol
- baratoi ar gyfer addysg uwch neu fyd gwaith

Mae llythrennedd yn gyfrifioldeb ysgol gyfan. Mae disgwyl i bob aelod o gymdeithas yr ysgol gefnogi a hyrwyddo ein hymgyrchu i godi safonau llythrennedd o fewn yr ysgol drwy fabwysiadu strategaethau cyson a disgwyliadau cyson uchel ar draws yr ysgol.

Dylai'r disgyblion gael eu dysgu i fynegi eu hunain yn glir ar lafar ac yn ysgrifenedig a datblygu eu sgiliau darllen.

Dylid eu dysgu i ysgrifennu brawddegau sydd yn ramadegol gywir a'u dysgu i sillafu ac atalnodi er mwyn cyfathrebu'n effeithiol o fewn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae disgyblion angen geirfa gyfoethog ag eang i fedru lleisio eu barn ac i fedru dygymod â gofynion gwybyddol o fewn pynciau. Mae ysgrifennu yn gymorth i gofio ac i roi trefn ar y meddwl.

Mae iaith yn gymorth iddynt adlewyrchu, adolygu a gwerthuso'r hyn y maent yn ei wneud a'r hyn mae eraill yn ei wneud, ei ddweud wedi ei ysgrifennu neu wneud.

Mae ymateb i gwestiynu effeithiol yn annog sgiliau meddwl.

Mae darllen yn gymorth i ddisgyblion ddysgu oddi wrth ffynonellau tu hwnt i'w profiadau eu hunain.

Sylwadau Cenedlaethol

Mae ymchwil a blaenoriaethau cenedlaethol i gyd yn cefnogi'r datganiad uchod. Gwelir isod rhai dyfyniadau yn unig o'r hyn a ysgrifennwyd ac a drafodwyd am y maes yma.

"Mae sgiliau llythrennedd da yn sylfaen i ddysgu effeithiol ar gyfer pob dysgwr, pa beth bynnag maen nhw yn ei astudio. Mae'r sgiliau hyn yn cefnogi cyfathrebu effeithiol, ac yn cymhwyso dysgwyr ar gyfer cyflawniad a llwyddiant yn eu haddysg, gogyfer a bywyd yn y gymuned ehangach a'r byd gwaith" [Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm APADGOS 2010]

"Mae llythrennedd yn greiddiol i ddysgu" [Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 – 14 oed Estyn 2008]

"Rwy'n disgwyl i bob athro fod yn addysgwr llythrennedd" [Leighton Andrews (Gweinidog Addysg Cymru) 2010]

Amcanion Ein Strategaeth

1. Mabwysiadau trefn ysgol gyfan i llythrennedd ar draws y cwricwlwm.
2. Galluogi pob disgybl gyrraedd y nod ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.
3. Cefnogi'r datblygiad mewn sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm.
4. Amlygu strategaethau effeithiol i ddatblygu ac hyrwyddo sgiliau llythrennedd
5. Hyrwyddo a chefnogi pob aelod o staff i fod â chyfrifoldeb am ddatblygiad llythrennedd o fewn eu gwersi a'u pynciau drwy gynlluniau gwaith a gwersi addas.
6. Cefnogi datblygiad llythrennedd drwy fuddsoddi mewn amrywiaeth o adnoddau addas megis y llyfrgell ac adnoddau TGCh yr ysgol.
7. Adnabod rolau a chyfrifoldebau o fewn yr ysgol yng nghyd-destun datblygu llythrennedd.
8. Sefydlu gweithdrefnau i fonitro llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Cyfrifoldebau

Rhieni

Mae rôl rhieni mewn datblygu sgiliau llythrennedd gyda'r mwyaf allweddol. Yr ydym yn llwyr ymroddedig i ddatblygu'r bartneriaeth gartref ysgol.

Fel rhan o'r bartneriaeth yma byddwn yn anelu at;

- Gynnwys y rheini yn ein strategaeth llythrennedd e.e. drwy nosweithiau rhieni.
- Roi gwybod i rieni am flaengareddau ysgol a thu hwnt drwy wefan a mwdwl yr ysgol.
- Gwrando ar farn rhieni parthed sgiliau llythrennedd eu plant.
- Rannu gwybodaeth a rhieni parthed asesiadau a chyrhaeddiad eu plant.
- Egluro sut mae sgiliau llythrennedd yn gymorth ar draws y cwricwlwm.
- Hyrwyddo gwersi llythrennedd i rieni.
- Annog darllen er pleser yn y cartref.

Cydlynedd Llythrennedd

Bydd y cydlynedd llythrennedd yn;

- monitro a gwerthuso llythrennedd ar draws y cwricwlwm
- dadansoddi perfformiad disgyblion ym mhroffion cenedlaethol a llunio arfarniad
- cadw golwg ar ddatblygiadau lleol a chenedlaethol yn y maes ac yn awgrymu arfer da.
- cydgordio gweithgareddau llythrennedd traws cwricwlaidd
- arwain arweinyddion pwnc , drwy gyswllt rheolaidd, ar flaengareddau y gallant rannu gyda gweddi aelodau'r adran.
- mapio llinynnau o'r fframwaith llythrennedd ar draws CA3
- sicrhau fod yr ysgol yn cyflwyno pob un o'r llinynnau yn CA3

Cydlynedd Iaith

Bydd y cydlynedd iaith yn;

- monitro'r cyfleoedd a gaiff disgyblion carfanau B, C1, C2 a CH i godi'u lefelau ieithyddol ymhob pwnc.
- monitro'r cyfleoedd a gaiff disgyblion a fynychodd y Ganolfan Iaith i wneud tasgau amrywiol yn y Gymraeg
- cymharu a monitro cynnydd disgyblion o ran eu lefelau yn y Gymraeg a'r Saesneg a'u carfarnau iaith o CA2 i ddiwedd CA3.

Arweinyddion Pwnc

Bydd arweinyddion pwnc yn sicrhau fod;

- cyfleoedd i gyfrannu tuag at y fframwaith llythrennedd wedi eu hadnabod yn glir yng nghynlluniau gwaith yr adran a'u bod yn dilyn a chyfarfod ag anghenion pob disgybl drwy'r cyfnodau allweddol.
- holl aelodau'r adran yn ymwybodol o berfformiad pob disgybl yn y profion cenedlaethol mwyaf diweddar
- testunau a ddefnyddir o fewn yr adran o fewn cyrraedd pob disgybl.
- llythrennedd wedi ei integreiddio i bolisi marcio'r adran.
- cyfarwyddiadau ar sut i ddarllen, ysgrifennu, gwrandao a siarad yn alinio a phedagogiaeth yr ysgol.
- holl aelodau'r adran yn ymwybodol o'r gofynion yn y maes llythrennedd sydd ar eu pwnc ac y bydd cynnydd yn cael ei fesur yn dymhorol.

Athrawon

Bydd athrawon yn sicrhau eu bod yn;

- gyfarwydd â'r Fframwaith Llythrennedd Genedlaethol.
- gyfarwydd â'r gofynion yn y maes llythrennedd o fewn eu pwnc.
- cynnwys elfen o lythrennedd ymhob gwers.
- dilyn strategaethau cytunedig ysgol neu adrannol er mwyn dysgu sgiliau darllen, ysgrifennu neu lafaredd.
- ymwybodol o ddisgwyliadau addas ar gyfer disgyblion a'r hyn y gall disgyblion eu gael yn anodd wrth ddatblygu eu sgiliau llythrennedd.
- defnyddio gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol ac am oedran darllen i sicrhau fod adnoddau yn cael eu gwahaniaethu'n unol â'r gofynion.

Cymorthyddion Dysgu

Bydd cymorthyddion dysgu yn;

- cefnogi'r staff dysgu wrth iddynt gyflwyno llythrennedd o fewn y gwersi.
- cymryd cyfrifoldeb dros gyflwyno gweithgareddau llythrennedd penodol wrth weithio mewn dosbarth neu gyda disgyblion unigol.
- defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion sydd ag ADY neu'r disgyblion adnabuwyd fel rhai â gwendidau yn eu sgiliau llythrennedd i gefnogi'r disgyblion o fewn y gwersi.

Llywodraethwyr

Bydd Corff Llywodraethol yr ysgol yn;

- rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sgiliau llythrennedd disgyblion
- ethol un aelod i fod â throsolwg o'r maes llythrennedd o fewn yr ysgol
- gosod llythrennedd fel eitem ar agenda'r corff llawn bob yn ail gyfarfod

Beth yw rôl yr adran Gymraeg a Saesneg?

I ryw raddau gellir dadlau nad yw Gymraeg a Saesneg yr un fath â llythrennedd. Dyma rai o'r gwahaniaethau;

- Mae gan y ddau bwnc eu testunau i'w dysgu fel pob adran arall.
- Mae llythrennedd yn ymwneud â nifer o arddulliau ysgrifennu ar gyfer gwahanol bynciau. Er enghraifft mae Gwyddoniaeth mewn sefyllfa gref i ddysgu sut i gofnodi canlyniadau arbrawf, cymryd nodiadau, ymchwiliadau a gwerthuso a.y.b.
- Mae pob pwnc angen dysgu disgyblion eu geirfa bynciol benodol.
- Mae sgiliau megis dadlau, perswadio a dadansoddi yn aml yn cael eu gwneud yn well mewn pynciau lle mae gwir bwrpas neu gynulleidfa. Er enghraifft o fewn Hanes gellir gofyn "Pwy oedd yn gyfrifol am y rhyfel byd cyntaf?" ac o fewn Daearyddiaeth gellir gofyn "A ddylid rhoi cymorth ariannol i wledydd tlawd i leihau effeithiau newyn?"
- Mae ffyrdd gwahanol o ddefnyddio iaith mewn agweddau gwahanol o'r cwricwlwm, mae disgyblion angen modelau.
- Mae llythrennedd yn amrediad o sgiliau. Mae'r sgiliau yma angen eu datblygu er mwyn gwella dysgu ar draws y cwricwlwm.
- Mae llythrennedd angen ei ddysgu a'i ymarfer o fewn cyd-destun pynciol.

Mae gan yr adrannau Gymraeg a Saesneg rôl allweddol i'w chwarae mewn datblygu llythrennedd. Mae pob pwnc yn elwa os yw sgiliau llythrennedd disgyblion yn gwella ac mae mwy o siawns i hyn ddigwydd os yw pob athro ar draws

yr ysgol yn mabwysiadu strategaethau a thechnegau i ddatblygu sgiliau llythrennedd.

Cynllun Pontio Cynradd / Uwchradd

Mae sgiliau llythrennedd disgyblion cyn iddynt drosglwyddo i'r uwchradd yn allweddol i lwyddiant disgyblion yn ystod eu cyfnod yma yn Ysgol Dyffryn Nantlle ac yn eu bywyd wedi'r ysgol.

Er mwyn sicrhau'r cyswllt cryf â'r ysgolion cynradd lluniwyd pecynnau pontio o fewn y Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Thechnoleg Gwybodaeth.

Mae'r pecynnau o fewn y Gymraeg â'r Saesneg wedi eu cynllunio fel bod cyfleoedd i ddisgyblion ddarllen, ysgrifennu a lleisio barn ar lafar. Bydd rhan gyntaf y pecynnau yn cael eu cyflwyno yn y cynradd gyda'r ail ran i'w cynnal yn ystod tymor cyntaf disgyblion yma yn Ysgol Dyffryn Nantlle.

Er mwyn cyfoethogi cyd ddealltwriaeth o sut yr eir ati i addysgu llythrennedd mae amserlen gyd arsylwi wedi ei chytuno a fydd yn caniatáu i athrawon Cymraeg a Saesneg o Ysgol Dyffryn Nantlle ymweld ag ysgolion cynradd y dalgylch yn ystod tymor yr haf. Mae amserlen gyffelyb i athrawon cynradd arsylwi yma yn ystod Tymor yr Hydref.

Trosglwyddo Gwybodaeth o'r Cynradd

Bydd perfformiad pob disgybl yn y profion cenedlaethol yn cael ei drosglwyddo i sylw Arweinydd CA3 cyn diwedd bob blwyddyn academiaidd ac fe fydd y wybodaeth yma yn cael ei gofnodi yn SIMS fel bod pob athro â mynediad hawdd i'r wybodaeth allweddol yma.

Lefelu Llafaredd , Darllen ac Ysgrifennu

Fel y nodwyd eisoes mae dysgu llythrennedd yn gyfrifioldeb ysgol gyfan. Mae disgwyl i bob aelod o gymdeithas yr ysgol gefnogi a hyrwyddo ein hymgyrchui godi safonau llythrennedd o fewn yr ysgol drwy fabwysiadu strategaethau cyson a disgwyliadau cyson uchel ar draws yr ysgol.

Fel rhan o strategaeth llythrennedd yr ysgol yr ydym yn gosod nod i **bob adran** ddefnyddio disgrifiadau lefel y Gymraeg a'r Saesneg i lunio asesiad o gyrhaeddiad llythrennedd disgybl o fewn eu pwnc erbyn diwedd y flwyddyn addysgol 15/16.

Er mwyn cyrraedd y nod yma yr ydym wedi llunio cynllun gweithredu sydd yn amlygu pa adrannau fydd yn lefelu iaith, pa hyfforddiant y maent eu hangen ac erbyn pryd.

Darllen

Pam fod datblygu darllen yn bwysig?

Mae darllen yn datblygu sgiliau disgybl fel ei fod yn medru;

- sicrhau mynediad i gwricwlwm ysgol
- deall syniadau pynciol
- datblygu i fod yn ddysgwyr a darllenwyr gydol oes
- parhau i ddatblygu eu sgiliau darllen i wneud cynnydd
- cywain, dehongli a chyflwyno gwybodaeth
- darllen, deall a dehongli cwestiynau arholiad/tasgau asesu i'w hateb yn effeithiol
- ymateb i a gwneud y defnydd gorau o ffynonellau gwahanol gan gynnwys rhai aml-gyfrwng a phrint
- cael mwynhâd a phleser o ddarllen

Wrth ddarllen datblygir sgiliau ieithyddol a fydd yn;

- cyfoethogi, gloywi a grymuso iaith y dysgwr
- caniatâu i'r disgybl drawsieithu - (y gallu i newid cyfrwng) sydd yn fodd i gyfoethogi profiad a dealltwriaeth o bwnc.

Beth ddisgwylir i bob athro / athrawes wneud yn eu gwersi?

- Cynnig cyfleoedd cyson i ddatblygu darllen yn ôl gofynion y pwnc
- Cyfrannu at hinsawdd ysgol sy'n darllen: darllen fel symbyliad, arddangos ar y muriau, deunydd perthnasol ac addas, geirfa bynciol...
- cynllunio'n ofalus ar gyfer darllen: pwrpas; deunydd darllen priodol i sgiliau darllen dysgwyr; strategaethau darllen priodol (gweler arweiniad pellach)
- helpu dysgwyr i gaffael ystod o strategaethau cywain gwybodaeth gan gynnwys testunau aml-gyfrwng
- adnabod cyfleoedd i ddysgwyr gyd-ddarllen e.e. darllen pâr, grŵp, wrth ymwneud â gweithgareddau amrywiol

Beth yw'r Strategaethau Darllen y byddwn yn ei ddefnyddio yn y gwersi?

<i>Sganio</i>	Edrych am ddarn arbennig o wybodaeth e.e. rhif ffôn, dyddiad neu ffigur allweddol, gair neu berson allweddol.
<i>llithr ddarllen</i>	Cipolwg sydyn ar destun/darn i ddeall yr ergyd e.e. yr is benawdau mewn gwर्सlyfr i weld a oes unrhyw beth perthnasol; deall cyfres o ddigwyddiadau neu brosesau.
<i>Craff ddarllen</i>	Astudio testun yn ofalus, gan gynnwys oedi i edrych yn ôl neu feddwl er mwyn edrych yn fanwl ar y testun e.e. astudio testun i roi crynodeb i gydweithwyr, neu ddewis y rhesymau allweddol am ddigwyddiadau a phwyso a mesur pa mor ddibynadwy dydynt.
<i>Gweithgareddau dilyniannu</i>	Aildrefnu darnau o destun er mwyn creu testun cydlynus. Gall gweithgareddau gynnwys dilyniannu paragraffau neu ddigwyddiadau, er mwyn gwirio gwybodaeth a dealltwriaeth, e.e. ymwybyddiaeth gronolegol mewn adroddiad hanesyddol; neu broses mewn gwyddoniaeth.
<i>Rhagfynegi</i>	Dyfalgu cam neu y rhan nesaf mewn testun.

Sut y byddwn yn plethu Darllen a gofynion y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol?

Bydd pob adran yn alinio eu cynlluniau gwaith lle'n briodol i gyd fynd a'r Elfennau, Agweddau a'r Llinynnau a amlygir o fewn Darllen ar draws y Cwricwlwm CA3 o fewn y Fframwaith.

Sut y byddwn yn mesur cynnydd disgyblion unigol?

Byddwn yn mesur cynnydd pob disgybl drwy ddadansoddi canlyniadau'r profion cenedlaethol ar ddiwedd tymor yr Haf. Bydd canlyniadau'r profion darllen yn cael eu cofnodi ar system SIMS a fydd yn galluogi athrawon gael gwell adnabyddiaeth o oedran darllen pob unigolyn a thrwy hyn gynllunio'n fanwl ar eu cyfer.

Bydd unigolion sydd yn derbyn *cefnogaeth ychwanegol* yn eistedd prawf darllen ar gychwyn a diwedd yr ymyrraeth. Defnyddir y profion canlynol

- Glannau Menai
- NFER
- Ein Hysgol Ni

Mae canlyniadau'r profion yma yn cael eu cofnodi ar SIMS ac fe fydd canlyniadau'r gwahanol gefnogaeth ychwanegol yma yn cael eu dadansoddi yn flynyddol.

Sut y byddwn yn mesur cynnydd cyffredinol mewn sgiliau Darllen?

Bydd y Cydlynnydd Llythrennedd yn arfarnu canlyniadau'r profion darllen cenedlaethol yn dilyn derbyn y data llawn o'r Llywodraeth. Bydd yr arfarniad yma yn amlygu cryfderau a gwendidau. Bydd cydran o gynllun datblygu llythrennedd blynyddol yr ysgol yn deillio o'r arfarniad yma.

Bydd unrhyw arfarniadau, canfyddiadau neu gynlluniau datblygu yn cael eu rhannu â staff a'u cyhoeddi ar wefan yr ysgol.

Cefnogaeth Ychwanegol

Nod yr ysgol yw cynnig cefnogaeth ychwanegol i bob un o ddisgyblion yr ysgol i wella eu sgiliau darllen beth bynnag fo eu gallu.

Mae ein strategaeth wedi ei rannu yn dair rhan, disgyblion sydd â sgoriau safonedig llai na 85, disgyblion sydd â sgoriau safonedig mwy na 115 a phob disgybl.

Er mwyn osgoi unrhyw stigma mae'r grwpiau penodol wedi eu henwi fel a ganlyn;

- Sgôr safonedig llai na 85 Grŵp Sbardun
- Sgôr safonedig mwy na 115 Grŵp Hedfan

Beth fydd y gynhaliaeth ychwanegol i Grŵp Sbardun?

Bydd pob disgybl yn cael ei roi ar gynllun darllen unigol.

Bydd y disgybl yn ..

- Eistedd prawf darllen tymhorol
- Darllen yn uchel i aelod o staff yn rheolaidd.
- Darllen adref
- Cyfarfod ag awduron bob hanner tymor

- Cymryd rhan mewn sesiynnau paratoi ar gyfer y profion cenedlaethol
- Derbyn clod am gwblhau llyfrau ac am ddilyn y cynllun

Bydd y rhieni yn ..

- Derbyn hyfforddiant ar sut i ddysgu plant i ddarllen yn y cartref
- Derbyn llyfryn ar sut i ddysgu plant i ddarllen
- Cofnodi'r darllen mae eu plant yn ei wneud yn wythnosol yn y cofnod darllen

Bydd Athrawon yn ..

- Derbyn gwybodaeth fanwl am oed darllen ac anghenion darllen pob disgybl
- Defnyddio gwybodaeth am oed darllen i gynllunio gwersi sydd yn ymestyn pob disgybl
- Cyflwyno ystod o strategaethau darllen i gefnogi sgiliau darllen o fewn y gwersi

Bydd Cymorthyddion dysgu yn ..

- Derbyn gwybodaeth fanwl am oed darllen ac anghenion darllen pob disgybl
- Cefnogi a chyflwyno rhannau o'r ymyrraeth
- Monitro'r cofnod darllen gan amlygu diffyg ymateb.

Bydd Arweinydd Llythrennedd yn ..

- Sicrhau fod pob disgybl yn eistedd prawf darllen tymhorol i fesur cynnydd
- Sicrhau fod llyfrau addas ar gyfer datblygu oedran darllen yr unigolion yma.
- Gweithio gydag adrannau Cymraeg a Saesneg i drefnu ymweliadau ag awduron unwaith bob hanner tymor
- Trefnu cyfres o sesiynau un i un yn ystod tymor y gwanwyn a fydd yn eu paratoi ar gyfer y Profion Cenedlaethol

Bydd y cydlynnydd ADY yn ..

- Cofrestru pob disgybl ar y gofrestr ADY
- Blaenoriaethu ymyrraeth Dyfal Donc yn unol â'r galw.

Bydd y Llywodraethwyr yn ..

- Derbyn adroddiad blynyddol ar y cynnydd mewn oedran darllen a wnaethpwyd gan y grŵp yma.

Beth fydd y gynhaliaeth ychwanegol i'r Grŵp Hedfan?

Bydd y disgybl yn ..

- Eistedd prawf darllen tymhorol
- Cael anogaeth gyson i ddarllen adref
- Cyfarfod ag awduron yn yr ysgol bob hanner tymor
- Derbyn copi o holl lyfrau sydd ar restr fer gwobr medal CILIP Carnegie
- Derbyn clod am gwblhau llyfrau ac am ddilyn y cynllun

Bydd y rhieni yn ..

- Llythyr yn nodi fod eu plentyn yn ddarllenwr cryf ac ein bod yn cydnabod a chefnogi hyn

Bydd Athrawon yn ..

- Derbyn gwybodaeth fanwl am oed darllen ac anghenion darllen pob disgybl
- Defnyddio gwybodaeth am oed darllen i gynllunio gwersi sydd yn ymestyn pob disgybl
- Cyflwyno ystod o strategaethau darllen i gefnogi uwch sgiliau darllen o fewn y gwersi

Bydd Cymorthyddion dysgu yn ..

- Derbyn gwybodaeth fanwl am oed darllen ac anghenion darllen pob disgybl
- Cefnogi a chyflwyno rhannau o'r ymyrraeth

Bydd Arweinydd Llythrennedd yn ..

- Sicrhau fod pob disgybl yn eistedd prawf darllen tymhorol i fesur cynnydd
- Sicrhau fod llyfrau addas ar gyfer datblygu oedran darllen yr unigolion yma.
- Gweithio gydag adrannau Cymraeg a Saesneg i drefnu ymweliadau gan awduron unwaith bob hanner tymor
- Trefnu cyfres o sesiynau un i un yn ystod tymor y gwanwyn a fydd yn eu paratoi ar gyfer y Profion Cenedlaethol

Bydd y Llywodraethwyr yn ..

- Derbyn adroddiad blynyddol ar y cynnydd mewn oedran darllen a wnaethpwyd gan y grŵp yma.

Y Ganolfan Ddysgu

Mae'r ganolfan ddysgu'n rhan allweddol o'r ddarpariaeth a fydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol. Bydd grwpiau Sbardun a Hedfan yn derbyn mwyafrif yr ymyrraeth ychwanegol drwy'r ganolfan ddysgu.

Mae'r Ganolfan Ddysgu;

- Ar agor drwy gydol pob diwrnod ysgol
- Yn lleoliad atyniadol sydd yn annog plant i ddod i mewn a mwynhau darllen
- Gyda pherson addas ar gael bob amser i gynorthwyo athrawon i fynd a dosbarth yno i ddarllen
- Yn ganolbwynt i'r gwaith darllen un i un
- Yn ganolbwynt i'r gefnogaeth ychwanegol a fydd ar gael i ddisgyblion ADY
- Yn ganolbwynt i'r gefnogaeth ychwanegol a fydd ar gael i rieni.

Ysgrifennu

Pam fod datblygu ysgrifennu yn bwysig?

Mae ysgrifennu yn datblygu sgiliau disgybl fel ei fod yn medru;

- datblygu gallu'r dysgwr i gyfathrebu
- mynegi syniadau, gwybodaeth a dealltwriaeth, a barn yn drefnus i wahanol bwrpasau mewn gwanhaol ffurfiau
- cyfathrebu mewn llawysgrifen ddealladwy a/neu ddefnyddio TGCh yn briodol
- gallu ateb cwestiynau arholiad/tasgau asesu yn effeithiol yn ysgrifenedig
- gwneud nodiadau

Wrth ysgrifennu datblygir sgiliau ieithyddol a fydd yn;

- datblygu ac arddangos mynegiant cywir (atalnodi, brawddeg, paragraffu, geirfa a sillafu)
- cyfoethogi, gloywi a grymuso iaith y dysgwr
- trawsieithu - gallu newid cyfrwng yn fodd i gyfoethogi profiad a dealltwriaeth o bwnc.

Beth ddisgwylir i bob athro / athrawes wneud yn eu pynciau?

- cynnig cyfleoedd priodol i ysgrifennu yn ôl gofynion y pwnc
- cynllunio'n ofalus ar gyfer ysgrifennu gan ystyried pwrpas, cynulleidfa a ffurf
- sicrhau cyfleoedd i ddatblygu'r ysgrifennu gan gynnwys cyfleoedd i drafod ac ysgrifennu ar y cyd (gweler arweiniad pellach ar y broses ysgrifennu)
- cynorthwyo'r dysgwyr i adnabod meini prawf addas
- cynnig anogaeth a chymorth – gan foddelu geirfa a phatrymau perthnasol
- sicrhau mynediad i ystod o adnoddau cefnogol e.e. geiriaduron/thesawrws, geirfa pwnc penodol, fframweithiau cynllunio, modelau priodol
- sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrion er mwyn asesu eu sgiliau ysgrifennu eu hunain a'u cyfoedion
- cynnig adborth cyson ac adeiladol ar sut i wella
- asesu a marcio'n briodol gan ddilyn polisi asesu'r ysgol/adran
- ymateb i ofynion y manylebau pwnc (cwricwlwm ac arholiad)

Beth yw'r broses ar gyfer ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm?

Hunan gwestiynu

Gofyn cwestiynau i'w hunain am eu gwaith ysgrifennu er mwyn penderfynu ar y gynulleidfa a'r diben yn eu meddyliau eu hunain, megis:

- Pam rydw i'n ysgrifennu'r testun hwn?
- Ar gyfer pwy rydw i'n ysgrifennu?
- Pa fath o iaith y mae angen i mi ei defnyddio?
- Beth y mae angen i mi ei ddweud wrthyn nhw?
- Sut byddaf yn trefnu fy ngwaith?

Cynllunio cynnwys

Meddwl am y plot, y thema, cynnwys y wybodaeth ac ati i gyd-fynd â'r dasg trwy:

- daflu syniadau, yn unigol neu gyda phobl eraill
- ymchwilio i'r pwnc mewn llyfrau neu ar sgrin

Ynganu

Ymarfer yr hyn sydd i'w ysgrifennu ar lafar cyn ysgrifennu mewn grwpiau bach neu gyda phartneriaid siarad/trafod ac arbrofi tan ei fod yn swnio'n iawn. 'Os na allan

nhw ei ddychmygu, allan nhw ddim ei ysgrifennu.'

Ysgrifennu'r drafft cyntaf

Rhoi rhywbeth ar bapur neu ar y sgrin gan ganolbwyntio ar drefn syniadau/cynnwys. 'Rhoi cynnig' ar sillafu anodd yn ystod y cam hwn gan ddefnyddio strategaethau sillafu a gyflwynir drwy ddysgu uniongyrchol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sydd yn tangyflawni a'r rheiny â dyslecsia/dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol na ddylid gadael iddyn nhw ddigalonni oherwydd camgymeriadau neu lawysgrifen wael.

Diwygio'r testun

Darllen yr hyn a ysgrifennwyd yn uchel i bartner neu iddo ef/iddi hi ei hun. Mae hyn yn amlygu unrhyw beth nad yw wedi'i gynnwys, anghysondebau gramadegol, ac ati efallai na fydden nhw yn amlwg o ddarllen y gwaith yn dawel, gan y bydd yr awdur yn aml yn 'darllen' yr hyn a ddylai fod yno yn hytrach na'r hyn sydd ar y dudalen mewn gwirionedd.

Adolygu'r testun a nodi:

- a yw'r testun yn gwneud synnwyr
- a oes angen rhagor o fanylion i ategu'r plot, ychwanegu at ddisgrifiadau neu ddarparu gwybodaeth sydd ar goll
- a yw'r cywair yn briodol i'r gynulleidfa
- a oes angen hepgor unrhyw beth oherwydd ei fod yn ailadroddus neu'n amherthnasol, ac ati
- a gwneud diwygiadau ar bapur neu ar sgrin.

Golygu

Gwirio:

- trefn/dilyniant syniadau/digwyddiadau/paragraffau er mwyn sicrhau bod yr ysgrifennu'n eglur
- sillafu, atalnodi a gramadeg.

Paratoi'r copi

Cynhyrchu copi terfynol sy'n addas i'w 'gyhoeddi', ar gyfer cynulleidfa go iawn yn ddelfrydol, gan roi sylw i'r cyflwyniad mewn llawysgrifen ddealladwy derfynol neu gan ddefnyddio TGCh.

Sut y byddwn yn plethu ysgrifennu a gofynion y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol?

Bydd pob adran yn alinio eu cynlluniau gwaith lle bo'n briodol i gyd fynd â'r Elfennau, Agweddau â'r Llinynnau amlygir o fewn ysgrifennu ar draws y Cwricwlwm CA3 o fewn y Fframwaith.

Beth yw'r chewch Testun Anllenyddol?

Testun	Pwrpas a nodweddion:	Cysyllteiriau allweddol:
Cyfarwyddiadol	<p>Pwrpas: disgrifio sut mae rhywbeth yn cael ei wneud drwy restru cyfres o gamau</p> <p>Nodweddion ieithyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amser presennol neu orchmynnol y ferf • trefn amser • cysyllteiriau amser • ansoddeiriau ac adferfau er mwyn egluro 	<p>AMSER: yn gyntaf, wedyn, cyn, nesaf, yn raddol, yn y cyfamser, unwaith, ar ôl, pan, tra, yn olaf ...</p> <p>YCHWANEGU: a, yn ogystal â, hefyd, ar ben hynny, eto, yn ychwanegol ...</p>
Esboniadol	<p>Pwrpas: esbonio proses neu sut mae rhywbeth yn gweithio</p> <p>Nodweddion ieithyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amser presennol y ferf • cysyllteiriau amser • termau technegol pan fo'n briodol • datganiad a chyfres o gamau • cynnwys diagramau a siariau llif pan yn briodol 	<p>AMSER: yn gyntaf, wedyn, cyn, nesaf, yn raddol, yn y cyfamser, unwaith, ar ôl, pan, tra, yn olaf .</p> <p>ACHOS: o ganlyniad, felly, gan fod, cyhyd a, pryd bynnag, oherwydd, gan hynny, yn y pen draw ...</p> <p>YCHWANEGU: a, yn ogystal â, hefyd, ar ben hynny, eto, yn ychwanegol ...</p> <p>CYMHARU: yn yr un modd, o gymharu â, yn debyg, ond, fodd bynnag, er gwaethaf hyn, ar wahân i, serch hynny, yn hytrach</p>
Dwyn i Gof / Adrodd yn ôl	<p>Pwrpas: ail-ddweud ynghylch digwyddiadau</p> <p>Nodweddion ieithyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amser gorffennol y ferf • trefn gronolegol • cysyllteiriau amser 	Yna, nesaf, wedyn, yn y cyfamser, yn ddiweddarach, ar yr un pryd, cyn gynted â, cyn, yn y diwedd/ o'r diwedd ...
Perswadiol	<p>Pwrpas: perswadio'r darlennydd i gytuno; dadlau'r achos dros safbwynt penodol</p> <p>Nodweddion ieithyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amser presennol y ferf • cyfarch y darlennydd yn uniongyrchol • defnyddio dyfeisiau rhethregol • cysyllteiriau rhesymu • datganiad, cyfres o bwytiau a chrynodeb ar y diwedd 	Yn glir, does bosib, yn amlwg, yn anffodus, yn naturiol, nid yn unig, yn benodol, uwchlaw popeth, yn enwedig, o ganlyniad, wrth gwrs, oherwydd, mae'n debyg, mewn geiriau eraill, fel a ddengys gan, yn fy marn i ...
Adroddiad / Gwybodaeth	<p>Pwrpas: disgrifio nodweddion; disgrifio sefyllfa; cyflwyno gwybodaeth</p> <p>Nodweddion ieithyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amser presennol y ferf • ddim yn nhrefn amser - wedi ei drefnu yn ôl themâu/penawdau • defnyddio arddull amheronol • dyfeisiau trefnu: paragraffau, rhifau/pwyntiau bwled, is-benawdau • gellid defnyddio diagramau/lluniau 	<p>ACHOS: o ganlyniad, felly, gan fod, cyhyd â, pryd bynnag, oherwydd, gan hynny, yn y pen draw ...</p> <p>CYMHARU: yn yr un modd, o gymharu â, yn debyg, ond, fodd bynnag, er gwaethaf hyn, ar wahân i, serch hynny, yn hytrach ...</p>
Trafodaeth	<p>Pwrpas: cyflwyno dadleuon a gwybodaeth o wahanol safbwyntiau</p> <p>Nodweddion ieithyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amser presennol y ferf • cysyllteiriau rhesymu • datganiad, dadleuon, tystiolaeth, pwyso a mesur a chasgliad • iaith wrthrychol amheronol 	Fodd bynnag, felly, o ganlyniad, oherwydd, er hyn, er, heblaw am, eto, o gymharu â, hefyd, gan fod, serch hynny, mae rhai pobl yn dweud, ar y llaw arall, mae'n bosibl, yr olaf, i gloi, ar y cyfan ...

Mae'r chwe thestun â'n llythrennol yn cael eu harddangos ar waliau pob ystafell ddosbarth. Maent yn gymorth i ddisgyblion ac athrawon sicrhau cysondeb mewn pwrpas a nodweddion ieithyddol.

Beth yw nodweddion ffurfiau ffeithiol / anllenyddol?

<p>ADRODDIAD I BAPUR NEWYDD NEU GYLCHGRAWN</p> <p>Mewn ADRODDIAD dylech gael : PENNAWD bachog sy'n tynnu sylw Dylech rannu'r adroddiad yn baragraffau gan ddweud:</p> <ul style="list-style-type: none"> • beth sy'n digwydd ac i bwy • pryd mae'n digwydd • ble mae'n digwydd • pam mae'n digwydd • sut mae'n digwydd <p>Gall y gohebydd holi nifer o bobl, a bydd yn rhoi'r geiriau mewn dyfynodau " " . Gallwch gynnwys llun neu ddiagram i'w wneud yn ddiddorol.</p>	<p>ARAITH</p> <p>Mewn ARAITH byddwch yn cyflwyno gwybodaeth ac yn mynegi barn. Rhaid :</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfarch eich cynulleidfa e.e. Annwyl gyfeillion, Annwyl gyddisgyblion • cyflwyno eich pwnc / testun • cyflwyno eich dadleuon yn drefnus • mynegi eich barn yn glir a phendant • rhoi rhesymau / ffeithiau am eich barn • defnyddio iaith lafar naturiol • gofyn rhai cwestiynau rhethregol (rhai nad oes angen atebion iddynt) • defnyddio ychydig o hiwmor, os yn addas • ailadrodd rhai pwyntiau • cloi trwy ddiolch am y gwrandawriad.
<p>ERTHYGL</p> <p>Mewn ERTHYGL byddwch yn trafod pwnc mewn cylchgrawn neu bapur newydd. Penderfynwch ar y testun. Casglwch wybodaeth am y pwnc. Wrth ysgrifennu :</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyflwynwch wybodaeth am eich pwnc • rhowch enghreifftiau neu dystiolaeth i brofi pwyntiau • mynegwch farn glir am y pwnc – mae'n bosibl cyflwyno sawl dadl, ond ceisiwch benderfynu ar un ochr gan roi rhesymau • rhannwch y gwaith yn baragraffau taclus • medrwch roi is-benawdau ar wahanol rannau o'r erthygl ac ychwanegu lluniau <p>• defnyddiwch arddull ffurfiol a safonol.</p>	<p>POSTER</p> <p>Mae POSTER yn cyflwyno gwybodaeth . Gall poster ddweud:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ble mae rhywbeth yn digwydd • beth sy'n digwydd • pwy fydd yn cymryd rhan • pryd fydd yn digwydd – diwrnod, dyddiad ac amser • pris tocyn efallai • rheswm dros y digwyddiad e.e. casglu arian at achos da, cyngerdd <p>Gall poster hefyd fod yn cyflwyno gwybodaeth am rhywun neu rhywbeth sydd ar goll. Gall poster fod yn mynegi barn neu roi cynghorion e.e. peryglon tân gwyllt, hysbysebu rhyw nwyddau arbennig.</p>
<p>LLYTHYR FFURFIOL / BUSNES</p> <p>Mewn LLYTHYR FFURFIOL mae'n rhaid ysgrifennu :</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfeiriad y sawl sy'n ysgrifennu'r llythyr (ar y dde) • enw a chyfeiriad y sawl fydd yn derbyn y llythyr (ar y chwith) • y dyddiad (ar y dde o dan y cyfeiriad) • cyfarchiad – Annwyl Syr / Madam • brawddegau llawn mewn paragraffau • eich neges yn glir ac uniongyrchol • ffeithiau neu farn yn ôl yr angen • Yr eiddoch yn gywir <u>neu</u> Yn gywir i gloi'r llythyr enw'r sawl sy'n ysgrifennu'r llythyr. 	<p>CYFARWYDDIADAU</p> <p>Gellir cael CYFARWYDDIADAU ar gyfer gwneud unrhyw beth e.e. gwneud cacen, chwarae gêm, dweud sut mae mynd i rywle. Mae CYFARWYDDIADAU yn cyflwyno gwybodaeth ac mae'n bwysig eu bod yn gywir. Wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau rhaid :</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio berfau gorchmynnol e.e. cofiwch, peidiwch â, rhowch, dylech • bod yn glir ac uniongyrchol • cael brawddegau byr nid paragraffau hir • bod yn drefnus • rhoi gwybodaeth fanwl • ychwanegu diagramau os bydd angen.

Mae nodweddion ffurfiannau ffeithiol anllenyddol uchod i'w gweld yn llyfr cyswllt pob disgybl. Gall pob disgybl gyfeirio at y ffurfiannau yma wrth gwblhau tasgau yn y dosbarth neu fel gwaith cartref.

Yn ogystal mae'r ffurfiannau uchod i'w gweld ar waliau pob ystafell ddosbarth ac mae'r athrawon yn cyfeirio atynt Pan fo'r angen.

Sillafu

Mae hanfodion sillafu cywir yn berthnasol i unrhyw bwnc ac unrhyw athro neu athrawes.

Yr ydym yn rhoi pwyslais ar gywirdeb sillafu oherwydd bod;

- camgymeriadau sillafu yn creu argraff wael, mae'n un o'r pethau cyntaf y mae darllenwr yn sylwi arno
- arholwyr, athrawon a chyflogwyr yn rhoi pwyslais sylweddol ar sillafu cywir
- pryder disgyblion am sillafu yn effeithio ar waith ysgrifenedig plentyn yn enwedig eu dewis o eiriau
- pwyslais cynyddol ar gywirdeb sillafu mewn arholiadau allanol ac o fewn gwaith cwrs

Nid gwaith yr athro yw cywiro camgymeriad sydd eisoes wedi ei wneud ond yn hytrach rhoi cymorth i atal y disgybl wneud y camgymeriad yr eildro. Dylai rhieni, disgyblion ac athrawon fod yn ymwybodol fod sillafu yn sgil weinyddol, nid yw'n gysylltiedig â pha mor glyfar yw'r person.

Marcio Sillafu

Mae polisi marcio'r ysgol yn gofyn i bob athro amlygu camgymeriadau sillafu gyda'r llythyren S ar ochr y dudalen. Cyfrifoldeb y disgybl yw canfod y sillafiad cywir a'i ysgrifennu 3 gwaith ar waelod y dudalen.

Wrth farcio bydd athrawon yn ...

- Peidio â marcio pob camgymeriad sillafu, byddant yn dewis y geiriau y dylai'r disgyblion fod wedi eu meistroli yn unol â'u hoed.
- Dylai'r marciwr geisio deall beth mae'r disgybl yn ceisio ei gyfathrebu, dylai gwallau'r ysgrifennydd (er yn bwysig) fod yn ail i'r cynnwys.
- Peidio â rhoi llythrennau i mewn i air sydd wedi ei gam sillafu. Yn hytrach gellir;
 - Ysgrifennu'r gair unwaith eto yn yr ochr.
 - Ysgrifennu'r gair yn gywir yn y cofnod geiriau personol (llyfr cyswllt)

Bydd pob disgybl yn ..

- Cadw cofnod geiriau personol yn y llyfr cyswllt- lle mae'r plentyn yn rhoi cynnig ar sillafiad mewn colofn ar y chwith, cyn cael cadarnhad o'r sillafiad cywir ar y dde.
- Adnabod geiriau sydd yn achosi her gyson a chanfod dull i'w cofio.
- Gwneud defnydd effeithiol o eiriaduron.
- Gwneud defnydd effeithiol o gywirwyr sillafu ar y cyfrifiadur.
- Dysgu a chael eu profi ar eiriau wythnosol yn y llyfr cyswllt.

Bydd athrawon yn ...

- Cymryd yn ganiataol wrth gyflwyno geiriau newydd y byddant yn treulio peth amser yn edrych ar eiriau ac yn trafod ei sillafiad.
- Cydnabod fod sawl ffordd wahanol o ddysgu sut i ddysgu sillafu.
- Amlygu gwallau sillafu drwy ddilyn trefn yr ysgol.
- Annog disgyblion i gadw cofnod geiriau personol yn y llyfr cyswllt.
- Annog plentyn i roi cynnig ar y sillafiad cyn iddo orfod gofyn am y sillafiad cywir. Ambell waith mae ei ymdrech o yn gywir. Os nad ydyw, o leiaf fe wêl yr athro/athrawes yn union ble mae o'n methu.
- Meithrin yn y plant yr arfer o olygu neu ail-edrych ar y gwaith cyn ei ystyried yn orffenedig. Diofalwch yw achos ambell wall sillafu.
- Darparu geiriaduron sydd yn rhan o arfogaeth ysgrifennu'r plentyn. Yn ddelfrydol bydd mwy nag un math ar gael yn y dosbarth. Rhan o'r addysg yw eu cael i ddefnyddio geiriaduron, fel bod 'yr wyddor ar waith'.
- Wal Geiriau Dosbarth - lle mae'r athro /athrawes yn ysgrifennu geiriau yn ôl angen y plant, pan maen' nhw

yn ysgrifennu. Bydd hwn ar gael a gall y plant droi ato i 'chwilio gair'. Yn fuan bydd ynddo stoc o'r geiriau amlaf eu defnydd.

Bydd yr Arweinydd Llythrennedd yn ..

- Sicrhau fod geiriau'r wythnos wedi eu hargraffu ymlaen llaw yn y llyfr cyswllt
- Fod y disgyblion yn dysgu'r geiriau yma go gyfer â phrawf wythnosol
- Sicrhau fod mynediad at wirydd sillafu yn y Gymraeg â'r Saesneg ar bob cyfrifiadur ysgol.
- Sicrhau fod pob athro yn gofyn i ddisgyblion gofnodi geiriau sydd yn her iddynt yn eu cofnod geiriau personol.

Bydd rhieni yn ..

- Gwneud amser i ddarllen gyda'i blentyn
- Defnyddio'r dull Edrych, Gorchuddio, Ysgrifennu a Gwrio i ddysgu geiriau'r wythnos ac unrhyw eiriau nodwyd yn y cofnod geiriau personol.

Ysgrifennu'n Gywir

Mae nifer o ffactorau'n cyfrannu tuag at ysgrifennu'n gywir. Rhaid, er mwyn bod yn gywir, ymateb i bob un ohonynt.

Llawysgrifen

Mae llawysgrifen daclus a dealladwy yn hanfodol. Yn aml mae llawysgrifen flêr yn arwain at gam ddealltwriaeth gan y darllynydd ac at golli marciau mewn gwaith dosbarth, gwaith cartref neu asesiadau allanol.

Bydd y disgybl ..

- Yn gwneud pob ymdrech i gadw ei law ysgrifen yn daclus.
- Dod ag adnoddau cywir ar gyfer ysgrifennu i bob gwers.
- Ail ysgrifennu darnau blêr o waith ysgrifenedig ar gais yr athro neu'r athrawes.
- Mynychu unrhyw hyfforddiant ychwanegol mae'r ysgol yn eu cynnig go gyfer â gwella llaw ysgrifen.

Bydd Athrawon yn ..

- Annog disgyblion i ysgrifennu gwaith mewn llaw ysgrifen daclus bob amser.
- Gofyn i ddisgyblion ail ysgrifennu darn o waith blêr.

Bydd y Cydlynnydd ADY yn ..

- Sicrhau hyfforddiant i wella llaw ysgrifen i'r disgyblion sydd ei angen.

Bydd Arweinyddion Pwnc yn ..

- Arfarnu llawysgrifen disgyblion wrth fonitro llyfrau gan adrodd i'r UDRh os oes pryder.

Atalnodi Treiglo a Pharagraffu

Marcio

Mae polisi marcio'r ysgol yn gofyn i bob athro amlygu camgymeriadau atalnodi a threiglo gyda'r llythrennau A a T ar ochr y dudalen. Cyfrifoldeb y disgybl yw canfod beth y maent wedi ei wneud o'i le a'i gywiro.

Bydd y disgyblion yn ..

- Defnyddio prif lythrennau ac atalnodau'n gywir.
- Brawddegau'n gywir ac amrywiol.
- Paragraffu'n bwrpasol.
- Defnyddio ystod o gystrawennau yn gywir ac i bwrpas.
- Gwahaniaethu rhwng iaith lafar ac iaith ysgrifenedig.

Bydd Athrawon yn ..

- Amlygu gwallau atalnodi, treiglo neu baragraffu drwy ddilyn trefn yr ysgol ,A ,T neu P.

Bydd Arweinyddion Pwnc yn ..

- Arfarnu sgiliau, atalnodi, treiglo a pharagraffu disgyblion wrth fonitro llyfrau gan adrodd i'r UDRh os oes pryder.
- Cynhyrchu adnoddau ar lefel adrannol sydd yn amlygu beth sydd yw brawddegau a pharagraffau addas o fewn eu pwnc.

Datblygu eich Sgiliau Ysgrifennu

Mae brawddeg daearyddol da yn cynnwys:



- Llai na 30 gair
- Termau daearyddol
- Ffeithiau daearyddol
- Data (*ffigyrau neu dyddiad*)
- Astudiaethau achos – enwi llefydd penodol.
- Priflythren ac atalnod llawn
- Gwirio sillafu

Llafaredd

Cyfrifoldeb pob athro/athrawes yw datblygu sgiliau llafaredd disgyblion. Mae llafaredd yn allweddol i ddatblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

Pam fod datblygu llafaredd yn bwysig?

Mae llafaredd yn datblygu sgiliau disgybl fel ei fod yn medru;

- datblygu gallu'r dysgwr i gyfathrebu
- magu hyder y dysgwr i fynegi ei hun ar lafar mewn amrywiol sefyllfaoedd
- hybu sgiliau meddwl y dysgwr
- hybu cydweithio rhwng dysgwyr
- mynegi dealltwriaeth o bwnc neu gysyniadau
- cynnig y cyfle gorau i ddatblygu cyfathrebu/cyfraniad dysgwr
- gosod sail gadarn ar gyfer datblygu gwaith darllen ac ysgrifennu - yn dibynnu ar natur y pwnc/maes a'r arweiniad statudol a dderbyniwyd †

Datblygir sgiliau ieithyddol fydd yn;

- cyflwyno a sefydlu patrymau ieithyddol perthnasol
- cyfoethogi, gloywi a grymuso iaith y dysgwr
- trawsieithu - gallu newid cyfrwng yn fodd i gyfoethogi profiad a dealltwriaeth o bwnc .

Beth ddisgwylir i bob athro / athrawes wneud yn eu pynciau?

- Cynnwys llafaredd fel rhan naturiol o bob gwers
- sicrhau fod llafaredd yn rhan naturiol o ddatblygu asesu ar gyfer dysgu ac o ddatblygu sgiliau meddwl a dysgu
- creu hinsawdd addas ar gyfer gwaith llafar yn y dosbarth
- cynnig cyfleoedd cyson i ddatblygu gwaith llafar
- cynllunio'n ofalus ar gyfer gwaith llafar
- ymgorffori gweithgareddau llafar amrywiol ac addas i gynlluniau gwaith ac i wersi

- cynnig symbyliadau pwrpasol a pherthnasol er mwyn ysgogi ymatebion llafar estynedig
- cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gydweithio mewn parau a grwpiau gan hyrwyddo'r gallu i wneud hynny'n effeithiol (gweler arweiniad pellach)
- cynnig cefnogaeth briodol i unigolion a grwpiau – adborth cyson ac adeiladol ar sut i wella
- adnabod meini prawf llwyddiant llafar i ddysgu a meddwl
- gofyn cwestiynau agored fydd yn annog y dysgwyr i feddwl ac i ymateb yn estynedig
- sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrion er mwyn asesu eu sgiliau llafar eu hunain a'u cyfoedion
- cynnig anogaeth a chymorth- gan fodelu geirfa a phatrymau iaith perthnasol

Sut y byddwn yn plethu llafaredd a gofynion y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol?

Bydd pob adran yn alinio eu cynlluniau gwaith lle'n briodol i gyd fynd a'r Elfennau, Agweddau a'r Llinynnau amlygir o fewn llafaredd ar draws y Cwricwlwm CA3 o fewn y Fframwaith. Rhennir y llinynnau yn dri rhan, siarad, gwranddo a chydweithio a thrafod.

DULLIAU DYSGU ac ADDYSGU: rhai strategaethau a gweithgareddau llwyddiannus allai fod yn ddefnyddiol i rai pynciau / mewn rhai sefyllfaoedd

<p>Y Gadair Goch / Sedd Boeth - astudio cymeriadau / swyddogaethau e.e. cymeriad mewn nofel neu hanes; person sy'n comisiynu gwaith; beirniad.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Yr athro i bortreadu cymeriad trwy gyfleu'r cymeriad e.e. trwy wisgo dilledyn , er mwyn chwarae rôl y cymeriad. ▪ Egluro'r cefndir a rhoi cyfle i'r disgyblion lunio cwestiynau er mwyn darganfod gwybodaeth benodol. ▪ Sefydlu'r rheolau - sef - neb i roi sylwadau ar gwestiynau'r disgyblion nag ar atebion yr athro – heblaw trwy ofyn cwestiwn arall. ▪ Yr athro i ateb mewn modd fydd yn sbarduno cwestiynau eraill. Mae'n bwysig bod yr athro yn glynu at ei rôl. Os yw am egluro rhywbeth dylai ddiosg y dilledyn sy'n cyfleu'r rôl. ▪ Yn dilyn y gweithgaredd byddai modd i'r disgyblion gofnodi'r atebion, ac ail wneud yr holi mewn parau. ▪ Yn yr un modd, gallai rhai disgyblion chwarae rôl cymeriadau arall. 	<p>Helga Drysor – chwilio am wybodaeth o wahanol ffynonellau, gan wneud hynny'n annibynnol neu mewn timau.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Rhoi taflen i ddarganfod ffeithiau i bob disgybl. ▪ Trefnu amrywiaeth o adnoddau mewn gwahanol lefydd – map ar wal, posteri, lluniau, llyfrau. ▪ Y nod yw darganfod cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl o fewn amser penodol. Gall fod yn ras / cystadleuaeth. ▪ Gall disgyblion wirio eu hatebion gyda'r athro neu fe ellir paratoi taflen arbennig i'r perwyl hwn. 	<p>Llysgenhadon – derbyn a rhannu gwybodaeth. Hybu cydweithio.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Grwpiau o 4. ▪ Un o bob grŵp yn llysgennad. ▪ Pob llysgennad yn gadael yr ystafell ac yn derbyn mewnbyn e.e. fideo, ac yn gwneud nodiadau. ▪ Yr athro yn cyflwyno gwybodaeth i'r grwpiau – y theori. ▪ Y llysgenhadon yn dychwelyd i'r ystafell ac yn egluro i weddill y grŵp.
<p>Gosod mewn trefn – buddiol wrth gyfateb testun ac ystyr neu esboniad.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gweithio'n unigol / mewn parau. ▪ Gosod gwybodaeth / testun / lluniau mewn trefn / categoreiddio / cyfateb. Cardiau lliw ? ▪ Gall fod yn gystadleuaeth - am y cyntaf i orffen, ond os am hybu trafodaeth well peidio bryso. 	<p>Cefn wrth gefn – datblygu gallu i egluro yn ogystal â gwranddo a chanolbwyntio.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Pâr yn eistedd cefn wrth gefn. ▪ Un yn disgrifio gwybodaeth a'r llall i gofnodi e.e. llun person, cynllun o dŷ, map, celfi mewn Ystafell. ▪ Yn yr un modd, gellir chwarae rôl cymeriadau mewn sefyllfaoedd arbennig e.e. dau gymeriad yn siarad ar y ffôn. 	<p>Bwrdd Cofio – miniogi'r cof.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Yr athro i ysgrifennu 12 neu fwy o eiriau ar y bwrdd du/ gwyn / rhyngweithiol. ▪ Rhoi munud i'r disgyblion eu cofio. ▪ Yna, dileu'r geiriau. ▪ Y disgyblion i ysgrifennu, eu hystyron / dehongliad, gan gofio cymaint ag y gallant ohonynt o fewn amser penodol. ▪ Gwirio'r termau a ddefnyddiwyd.

<p>Sbotolau – buddiol i roi adborth ac asesu dealltwriaeth disgyblion + asesu cyfoedion.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gwirfoddolwr i sefyll ar flaen y dosbarth yn y ‘sbotolau’. ▪ Disgyblion i restru rhifau 1-10 ar bapur. ▪ Yr athro yn gofyn 10 cwestiwn i’r un yn y ‘sbotolau’ am y testun a fu dan sylw. Y disgybl i ateb pob un ar goedd a gweddill y disgyblion i benderfynu a yw’r ateb yn gywir, yn anghywir neu i nodi nad ydynt yn siŵr. ▪ Os ydynt yn meddwl bod yr ateb yn gywir, rhoi / gyferbyn â rhif y cwestiwn, X os yn anghywir, a ? Os na allai’r gwirfoddolwr ei ateb neu os nad yw’n siŵr bod ei ateb yn gywir. ▪ Cymeradwyaeth i’r gwirfoddolwr a’r athro i fynd dros yr ymatebion gan bwy ymatebodd yn gywir. 	<p>Bingo – datblygu geirfa ac ystyron, + gallu i ganolbwyntio.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Pob disgybl i lunio cerdyn bingo a naw sgwâr. ▪ Yr athro i ysgrifennu 12 gair allweddol o thema Cyfredol ar fwrdd gwyn / du / rhyngweithiol. ▪ Pob disgybl yn dewis 9 gair i lenwi’r 9 sgwâr. ▪ Chwarae bingo gyda’r athro yn darllen dehongliadau o’r 12 gair, un ar y tro. ▪ Y cyntaf i gael ‘tŷ’ i ddarllen y geiriau a’u hystyr a gweddill y dosbarth i gytuno / anghytuno â’r atebion. ▪ Gall fod yn gystadleuaeth a gellir amrywio e.e. defnyddio lluniau, rhifau ayyb. 	<p>Taflu’r dis – profi gwybodaeth, datblygu geirfa, neu’r gallu i ymateb.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Paratoi set o gardiau gyda chwestiynau neu sbardunau (efallai lluniau) y gall y disgyblion ymateb iddynt a’u gosod mewn trefn synhwyrol a gosod llythyren ar gefn pob un – A,B,C, Ch...a darparu set ar gyfer pob grŵp. ▪ Y disgyblion i weithio mewn grwpiau o 6 ac i eistedd o amgylch ford. Gosod y cardiau wyneb i waered gyda cherdyn A ar y top. Bydd angen dis i bob grŵp a rhif o 1- 6 i bob disgybl. ▪ Y grŵp i benderfynu tro pwy fydd gyntaf a’r disgybl hwnnw i daflu’r dis. Y person â’r rhif i godi’r cerdyn cyntaf ac i ymateb i’r sbardun. ▪ Yr ail ddisgybl i daflu’r dis a chodi cerdyn B ac yn y blaen. Gan nad oes neb yn gwybod tro pwy fydd nesaf rhaid i bob aelod ganolbwyntio.
<p>Dirprwyo – buddiol i astudio unrhyw bwnc. Casglu a rhannu gwybodaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Sefydlu gorsafoedd adnoddau o amgylch yr ystafell e.e. posteri, fideo, tudalennau o lyfr, tâp sain, gwybodaeth ar gyfrifiadur, safle gwe ayyb. ▪ Disgyblion yn sefydlu grwpiau o 5 efallai. ▪ Gosod yr un amcanion i bob grŵp, sef deall a dysgu am bob agwedd o’r testun. ▪ Pob grŵp i ddewis pa ddisgybl sy’n mynd i ymweld â phob grŵp gan ystyried ei hoff ddull o ddysgu. Gall yr athro ddewis er mwyn gwahaniaethu efallai. ▪ Y disgyblion i wneud nodiadau a dychwelyd. ▪ Pob disgybl yn ei dro yn dysgu gweddill y grŵp. 	<p>Am y cyntaf - chwilio am wybodaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Paratoi cyfres o 10 cwestiwn ar y testun dan sylw – pob set mewn lliwiau gwahanol – digon i bob grŵp. Gosod pob set ar ddesg yr athro gyda’r rhif ar i fyny ac yn dechrau â rhif 1. ▪ Grwpiau o 3 neu 4 – rhoi lliw i bob grŵp allu adnabod eu set o gwestiynau ar ddesg yr athro. ▪ Rhoi ffynonellau i bob grŵp sy’n cynnwys atebion i bob cwestiwn – un i bob disgybl e.e. tudalen o lyfr, llun, map. ▪ Yr athro i weiddi ‘Barod’ ac un o bob grŵp i redeg at y ddesg i nôl y cwestiwn cyntaf. ▪ Y grŵp i ddarganfod yr ateb a’i ysgrifennu. ▪ Ail un o’r grŵp i fynd â’r ateb i’r athro i’w wirio, ac os yw, gall gasglu’r ail gwestiwn, ayyb. ▪ Y grŵp cyntaf i gwblhau’r atebion sy’n ennill. 	<p>Deuawd a phedwarawd – annog cydweithio, trafod a phenderfynu, datrys problemau.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Y disgyblion i weithio mewn parau. ▪ Adnoddau pwrpasol wedi eu rhannu â phob pâr. ▪ Pob pâr â thasg i’w chwblhau e.e. gosod gwybodaeth mewn trefn, llunio penawdau ar gyfer lluniau. ▪ Pob pâr i weithio gyda phâr arall – pedwarawd – gan rannu’r hyn a wnaethant a chytuno ar fersiwn terfynol cyn ei rannu â gweddill y dosbarth. ▪ Dewis un o’r pedwarawd i rannu gwybodaeth, egluro ac amddiffyn eu penderfyniad.

<p>Pyramid – ystyried prif bwyntiau wrth lunio nodiadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Pob disgybl i lunio pyramid ar dudalen. ▪ Dosbarthu testun ffeithiol i'r disgyblion. Gofyn i'r disgyblion ddarganfod prif syniad y darn – y pennawd – a'i osod ar frig y pyramid. ▪ Yna, y disgyblion i ddarganfod yr haenen nesaf o wybodaeth – y prif bwyntiau a'u nodi ar y pyramid, ayyb. ▪ Yr athro i drafod efo'r dosbarth a gwirio'r pwyntiau ar y pyramid. ▪ Gellir gwneud yr un peth gyda chardiau o wybodaeth a'u gosod ar ffurf pyramid yn ôl eu trefn pwysigrwydd. ▪ Gellir defnyddio fideo, tâp sain, cyflwyniad gan ddisgyblion ar unrhyw bwnc ayyb. 	<p>Cardiau galw/Goleuadau traffig – ffordd hwylus o arddangos dealltwriaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Pob disgybl â 3 cherdyn A5 / A6 yr un : <div style="text-align: center;"> gwyRDD, oren, coch, ✓ ? X </div> ▪ Wrth ymateb y disgyblion i godi'r cerdyn yn dynodi : ▪ ✓ Rwy'n gwybod yr ateb ▪ ? Dydw i ddim yn siŵr o'r ateb. ▪ X Dydw i ddim yn gwybod yr ateb. <p>Defnyddio'r cardiau :</p> <ul style="list-style-type: none"> • i ymateb i gwestiynau • i arddangos dealltwriaeth 	<p>Canolbwynt y byd – ffordd wahanol o fynegi barn am bwnc.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gosod cadeiriau mewn cylch. ▪ Llunio cylch o gardfwrdd / llinyn. ▪ Un gwirfoddolwr i sefyll yn y cylch gan wneud datganiad am y testun dan sylw. Gweddill y disgyblion i ymateb. <p>-Os yn cytuno rhywfaint â'r datganiad yna yn sefyll yn agosach at y canol. -Os yn anghytuno'n llwyr, i aros ar eu heistedd. -Y rhai sy'n cytuno'n llwyr i sefyll nesaf at yr un sydd yn sefyll ar ganolbwynt y byd.</p>
<p>Dominos – buddiol ar gyfer adolygu, asesu dysgu ayyb.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Paratoi set o gardiau A6 neu A7 a rhannu pob un fel domino gyda chwestiwn ar un hanner ac ateb ar yr hanner arall. Nid yw'r cwestiwn a'r ateb yn cyfateb. Gall y cwestiwn fod mewn un iaith a'r ateb yn y llall. ▪ Cymysgu'r cardiau a rhoi un i bob disgybl. ▪ Unrhyw un i ddechrau trwy ddarllen y cwestiwn ar goedd a rhywun arall yn yr ystafell i ateb. Gweddill y dosbarth i nodi a yw'r ateb yn gywir ai peidio trwy godi eu bodiau. Os na chynigir ateb, yr athro i ofyn a oes rhywrai yn meddwl bod yr ateb cywir ganddynt, a'r dosbarth i drafod pa un sy'n gywir. Yr un sydd â'r ateb cywir i ofyn y cwestiwn sydd ar ei garden, ayyb. 	<p>Dyfalw pwy – buddiol ar gyfer adolygu, asesu dysgu ayyb.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Y disgyblion i weithio mewn grwpiau o 4. ▪ Rhoi pecyn o gardiau i bob grŵp, eu cymysgu a'u gosod wyneb i waered ar y bwrdd. Gall y cardiau nodi eitemau a ddysgwyd e.e. cymeriadau o nofel, digwyddiadau mewn drama neu hanes, geirfa allweddol. ▪ Y grŵp i benderfynu tro pwy fydd gyntaf ac ati neu i ddefnyddio dis a rhoi rhif i bob disgybl. Y chwaraewr cyntaf i godi'r cerdyn uchaf, edrych arno gan ofalu ei guddio rhag gweddill y grŵp. ▪ Gweddill y grŵp i holi cwestiynau a deiliad y cerdyn i ateb le / Nage yn unig. Gellid cyfyngu ar yr amser a / neu'r cwestiynau a ofynnir. ▪ Ar ôl dyfalw'r ateb, symud ymlaen at y nesaf. 	<p>Llun llonydd – ail-greu a deall sefyllfa.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Y disgyblion i weithio mewn grwpiau. ▪ Egluro wrth y disgyblion bod llun / delwedd lonydd fel ffotograff neu lun wedi'i rewi ar fideo. Dal digwyddiad yn dawel ac yn ddisymud. ▪ Y disgyblion i ddefnyddio safleoedd, osgo corfforol, mynegiant y wyneb i gyfleu digwyddiad neu syniad e.e. ifaciwi yn gadael cartref, portreadu digwyddiad allweddol mewn ffuglen, cerdd, drama. ▪ Rhoi delwedd / llun i'r grwpiau sydd i ail greu'r llun fel delwedd lonydd, gan ddyfalw enwau, cefndir a hanes i'r cymeriadau. ▪ Paratoi a chyflwyno i weddill y dosbarth. ▪ Gweddill i ddyfalw'r hyn a bortreadir. ▪ Gellir holi cwestiynau neu athro'n holi'r grwpiau.

Gwaith Grŵp

Mae cynnal gwaith grŵp yn rhan allweddol o ddatblygu sgiliau llafaredd disgyblion. Amlygir isod y strategaethau a ddefnyddir gan yr ysgol i sicrhau fod gwaith grŵp yn effeithiol.

Sut ddylid trefnu a chynnal gwaith grŵp?

- Penderfynu ar nifer y dysgwyr ar gyfer pob grŵp. (3 yn ddefnyddol)
- Penderfynu ar gynnwys y grwpiau—rhoi dewis i'r dysgwyr ambell waith.
- Dewis arweinydd neu gadeirydd i'r grŵp, gan roi cyfle i bawb yn ei dro (nid oes angen cadeirydd bob tro).
- Gosod y dasg a'r canllawiau—meini prawf llwyddiant.
- Paratoi a symbylu.
- Mynd o amgylch y grwpiau ac ymuno yn y drafodaeth.
- Dangos diddordeb yn sylwadau'r dysgwyr.
- Annog dysgwyr swil neu ddiymdrech
- Cynnig adborth adeiladol—cysylltu â'r meini prawf llwyddiant.

Nodweddion gwaith grŵp effeithiol:

Pan fydd y grŵp yn gweithio'n dda mae/mae'r ...

- aelodau'r grŵp yn wynebu ei gilydd er mwyn gallu gweld a chlywed ei gilydd yn rhwydd
- pawb yn parchu ei gilydd ac yn cymryd eu tro i siarad
- pob aelod o'r grŵp yn ymwybodol o'i rôl, pwrpas y dasg a sut i gyflawni'r dasg
- dysgwyr yn cydweithio yn effeithiol
- grŵp yn cydweithio i ddatrys problemau ac unrhyw anghytuno
- grŵp yn gallu arfarnu'r dasg a'u dysgu
- holl aelodau'r grŵp ar dasg
- grŵp yn gweithio oddi mewn i gyfyngiadau amser pendant y cytunwyd arnynt

Goresgyn Problemau:

Os nad yw'r gwaith grŵp yn mynd yn dda, dylid gwirio ...

- bod rheolau sylfaenol a disgwyliadau wedi eu sefydlu o'r dechrau
- bod pob aelod yn deall ei rôl o fewn y grŵp
- bod y gwaith wedi ei strwythuro yn ofalus – tasgau, amseriad, adnoddau, cyfleoedd i rannu ac adborth ...
- bod gan y grŵp ddull gweithredu ar gyfer dod i benderfyniadau a datrys problemau
- cynllun yr ystafell ddosbarth – ydy trefniant y dodrefn neu'r celfi yn addas ar gyfer cynnal gwaith grŵp?
- Adnoddau – ydyn nhw'n briodol i'r dasg?
- Amser – a neilltuwyd digon/gormod o amser i sefydlu'r gwaith grŵp yn briodol?
- Diogelwch – a ydy'r gofynion diogelwch wedi eu sefydlu'n glir o'r dechrau?
- Tasgau – a ydy'r tasgau wedi eu cynllunio a'u strwythuro ar gyfer gwaith grŵp i annog cydweithio?
- Rheolau sylfaenol – oes angen ailedrych arnyn nhw, neu hyd yn oed eu hail-greu?
- Rôl yr athro – cefnogaeth ac anogaeth briodol

Cefnogaeth Ychwanegol

Nod yr ysgol yw cynnig cefnogaeth ychwanegol i bob disgybl yn yr ysgol wella eu sgiliau llafaredd.

Mae ein strategaeth wedi ei rannu yn dri phrif ran. Mae gosod disgyblion o fewn tri grwp yn llawer anoddach o fewn llafaredd o gymharu â darllen. Yr ydym yn defnyddio disgrifiadau lefel o'r cwricwlwm cenedlaethol fel ein llinyn mesur. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, dylai perfformiad y mwyafrif mawr o'r disgyblion ddod o fewn ystod Lefelau 2 i 5, ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 o fewn yr ystod 3 i 7. Mae Lefel 8 ar gael i ddisgyblion galluog iawn ac, i helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol yng Nghyfnod Allweddol 3, darperir disgrifiad uwchlaw Lefel 8.

Yr ydym yn rhannu disgyblion CA3 yn dri grŵp o ran llafaredd. Disgyblion Lefel 1 -3, lefel 8 neu Berfformiad Eithriadol a'r gweddill. Yr ydym yn grwpio disgyblion o fewn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd disgyblion yn y grŵp Lefel 1 – 3 yn derbyn ..

- Cefnogaeth drwy'r ddarpariaeth ADY

Bydd y disgybl yn y grwp Lefel 8 neu Berfformiad Eithriadol yn derbyn ..

- Cyfleoedd i gynrychioli'r ysgol mewn cystadlaethau siarad cyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Sut y byddwn yn mesur cynnydd?

Byddwn yn mesur cynnydd drwy gymharu Lefel ar gychwyn ac ar ddiwedd blwyddyn academiaidd.

Bydd y disgybl yn ..

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau dosbarth fydd yn gofyn iddynt ddefnyddio eu sgiliau llafaredd
- Cymryd rhan adeiladol mewn gwaith grŵp
- Cwestiynu ac ateb yn estynedig yn ystod gwersi yn ôl y galw

Bydd Athrawon yn ..

- Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau llafaredd o fewn eu gwersi.